**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 17 Chwefror 2015**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Oedolion a Phlant) a David Smith (Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus) |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Meirick Davies - Personol - Eitem 7 – yn rhentu garej gan y Cyngor<br>Y Cynghorydd Martyn Holland - Personol - Eitem 5 - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau<br>Y Cynghorydd Huw Williams – Personol - Eitem 5 – â phlentyn yn mynychu Ysgol Pen Barras |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG – YSGOLION CYNRADD ARDAL RHUTHUN - YSGOL LLANBEDR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi cynnwys llythyr y Gweinidog, gweler Atodiad 1 yr adroddiad*<br><br>*(b) cytuno bod y swyddogion yn dechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau.* |
| **6** | GWEITHREDU DEDDF TAI CYMRU 2014 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn eithrio unrhyw un o'r grwpiau a enwir dan adran 2 yr adroddiad ond, yn hytrach, yn parhau i gynnal "prawf bwriad" ar bob un ohonynt ac yn cyhoeddi ei fwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru fel y manylwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 17 Chwefror 2015**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2015/16 | ***PENDERFYNWYD** -*<br><br>*(a) Mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2015/16 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2);*<br><br>*(b) Codi rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 i rent wythnosol cyfartalog o £74.93 o ddydd Llun 6 Ebrill 2015 ymlaen;*<br><br>*(c) Codi rhenti garejys y Cyngor yn unol â'r cynnydd mewn rhent ar gyfer anheddau'r Cyngor;*<br><br>*(d) Cyflwyno costau gwasanaeth cyfartalog o £1.99 yr wythnos lle bo'n berthnasol yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014;*<br><br>*(e) Cynnal adolygiad o safleoedd garej yn 2015/16 fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Asedau, a derbyn adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad erbyn 31 Rhagfyr 2015 fan bellaf.* |
| **8** | ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD** y dylid cefnogi'r prosiectau yn atodiad 1 sydd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2015/16 a'u hargymell i'r Cyngor llawn.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b)* *cymeradwyo trosglwyddo £100 mil i gronfa wrth gefn i ariannu gwelliannau i fand eang ysgolion yn 2015/16;*<br><br>*(c)* *anfon llythyr at Lywodraeth Cymru ynglŷn â phryderon y Cabinet o ran cynigion y Gweinidog mewn perthynas â TAITH.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |